# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 27AIN HYDREF, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 20 Hydref 2023)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes

Elfed Williams (Cadeirydd)

Arwyn Herald Roberts

Annwen Hughes (Eilydd)

**Aelodau Lleol**

**Parc Teulu Gelli Gyffwrdd**

Cynghorydd Iwan Huws
Cynghorydd Sasha Williams

**Clwb Llyn Bach**

Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. 10:00AM CAIS AM DRWYDDED EIDDO - PARC TEULU GELLI GYFFWRDD 5 - 9

GELLI GYFFWRDD, LÔN LLWYN, Y FELINHELI, BANOGR, GWYNEDD LL56 4QN

I ystyried y cais

## 5. 11:30AM CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO - CLWB LLYN BACH 10 - 14

Clwb Llyn Bach, Heol yr Wyddfa, Porthmadog, LL49 9DF

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **27 Hydref 2023** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO YM MHARC TEULU GELLI GYFFWRDD, LÔN LLWYN, Y FELINHELI, LL56 4QN** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Parc Teulu Gelli Gyffwrdd, Lôn Llwyn, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QN gan yr ymgeisydd Mr Andrew Baker, Rheolwr Cyffredinol. Mae'r ymgeisydd yn gwneud cais am drwydded eiddo. Mae parc teulu Gelli Gyffwrdd yn gyrchfan poblogaidd i ymwelwyr yng Ngwynedd. Mae'r safle yn cynnig amrywiaeth o reidiau a gweithgareddau yn ogystal â llety glampio. Mae'r ymgeisydd yn gwneud cais am drwydded eiddo er mwyn cael caniatâd i werthu alcohol yn eu bwyty ar y safle. Bwriedir gwerthu cynnyrch lleol mewn poteli, gyda phrydau; yn ogystal â gwerthu cynnyrch lleol mewn poteli yn y siop anrhegion. Mae'r llety glampio yn agored i westeion 7 niwrnod yr wythnos o ddechrau mis Ebrill hyd at ddiwedd mis Hydref.

1.2 Mae'r cais yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â gwerthu alcohol ar ac oddi ar yr eiddo, 10:00 tan 22:00, ac ar gyfer cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, dramâu a ffilmiau, perfformiadau dawns (dan do ac awyr agored) hefyd tan 22:00, 7 niwrnod yr wythnos.

1.3 Mae'r cais yn datgan bod bwriad i drefnu perfformiadau a dramâu dan do ac awyr agored mewn ardal theatr tu allan, a hynny'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn yn bennaf yn ystod y tymor prysuraf ond hefyd y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig ar gyfer gwesteion glampio ac aelodau o'r gymuned, o fis Chwefror tan fis Hydref. Nodir y byddai 'amplifier' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer adloniant o'r fath.

1.4 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

1.5 Derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau gan eiddo lleol a chyfagos.

Gweler y tabl atodol am fanylion yr oriau arfaethedig:

**Oriau Agor:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 10:00 | - | 17:30 |
| Dydd Llun | 10:00 | - | 17:30 |
| Dydd Mawrth | 10:00 | - | 17:30 |
| Dydd Mercher | 10:00 | - | 17:30 |
| Dydd Iau | 10:00 | - | 17:30 |
| Dydd Gwener | 10:00 | - | 17:30 |
| Dydd Sadwrn | 10:00 | - | 17:30 |

**Gweithgareddau Trwyddedadwy:**

**Dramâu: Dan do ac Awyr Agored:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Llun | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mawrth | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mercher | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Iau | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Gwener | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Sadwrn | 10:00 | - | 22:00 |

**Ffilmiau: Dan do ac Awyr Agored:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Llun | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mawrth | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mercher | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Iau | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Gwener | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Sadwrn | 10:00 | - | 22:00 |

**Cerddoriaeth Fyw: Dan do ac Awyr Agored:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Llun | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mawrth | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mercher | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Iau | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Gwener | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Sadwrn | 10:00 | - | 22:00 |

**Cerddoriaeth wedi ei Recordio: Dan do ac Awyr Agored**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Llun | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mawrth | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mercher | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Iau | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Gwener | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Sadwrn | 10:00 | - | 22:00 |

**Perfformiadau Dawns: Dan do ac Awyr Agored**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Llun | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mawrth | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mercher | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Iau | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Gwener | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Sadwrn | 10:00 | - | 22:00 |

**Cyflenwi Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Llun | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mawrth | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Mercher | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Iau | 10:00 | - | 22:00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Gwener | 10:00 | - | 22:00 |
| Dydd Sadwrn | 10:00 | - | 22:00 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol -

- Gweithredir System TCC, a bydd recordiadau o droseddau ar gael am 31 diwrnod
- Rhoddir hyfforddiant i staff i fod yn wyliadwrus o unrhyw broblemau posib neu berygl i gwsmeriaid ac ymateb yn unol â hynny. Mewn amgylchiadau lle nad yw staff yn gallu tawelu sefyllfaoedd yn ddiogel heb risg i gwsmeriaid neu staff: maent yn cael eu cyfarwyddo i ffonio'r heddlu.
- Llyfr damweiniau ar y safle yn ei le i gofnodi unrhyw ddamweiniau neu anafiadau sy'n digwydd yn yr eiddo. Bydd y dogfennau hyn yn cael eu cadw am gyfnod o dair blynedd.
- Bydd deilydd y Drwydded Eiddo yn sicrhau bod aelodau hyfforddedig o staff ar gael yn ystod yr oriau trwyddedadwy.
- Bydd y DPS yn cadw taflen awdurdodi DPS gyfredol a fydd yn dangos y rhestr o'r aelodau staff sydd wedi cael eu hawdurdodi i werthu alcohol ar y safle.
- Bydd cofnod digwyddiad yn cael ei gadw mewn llyfr rhwymedig ynghyd â phob achos o wrthod gwerthu alcohol a bydd ar gael i'r heddlu a swyddogion y cyngor.
- Bydd alcohol yn cael ei weini wrth brynu bwyd ar y safle.
- Bydd gofyn i unrhyw blant yn yr eiddo gael eu goruchwylio gan oedolyn ar ôl 21.00 yn y bwyty.
- ID ffotograffig yn unig a dderbynnir, bydd polisi her 25 yn cael ei weithredu.
- Bydd staff yn derbyn hyfforddiant a bydd cofnodion perthnasol a manylion yr hyfforddiant yn cael eu cadw.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais.

## 3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad. |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gwynedd a Sir Fôn | Dim gwrthwynebiad. |
| Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd | Derbyniwyd sylwadau yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd. |
| Trigolion lleol | 9 o lythyrau ac e-byst, a phob un ohonynt yn wrthwynebiad. |

### 3.1 Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gwynedd a Môn

Dim gwrthwynebiad.

**3.2 Trigolion lleol - 9 gwrthwynebiad**

3.3 Mae yna nifer o eiddo preswyl yn agos i Barc Gelli Gyffwrdd, a derbyniwyd gwrthwynebiadau mewn perthynas ag amcanion trwyddedu -

- Diogelwch y cyhoedd
- Niwsans cyhoeddus
- Gwarchod plant rhag niwed.

3.4 Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bryder ynghylch y cynnydd mewn traffig a fyddai'n deillio o ganiatáu'r drwydded, gan ddweud bod traffig ar hyd y ffyrdd cul sy'n arwain at y Parc eisoes yn broblemus, ond y byddai'n dod yn fwyfwy felly pe bai'r oriau y mae'r Parc ar agor yn cael eu hymestyn ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy. Nodwyd y byddai pobl sy'n yfed alcohol yn fwy tebygol o adael y Parc ar droed yn y tywyllwch, sy'n peri pryder gan fod y ffordd yn beryglus.

3.5 Nododd trigolion fod y Parc wedi ei leoli mewn ardal wledig dawel; ac er bod preswylwyr yn deall bod yna ddisgwyliad y byddai rhywfaint o sŵn o weithgareddau arferol y parc, codwyd pryderon sylweddol y gallai digwyddiadau awyr agored, gan gynnwys cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio hyd at 22.00, o bosib 7 niwrnod yr wythnos, achosi niwsans cyhoeddus.

3.6 Mynegodd rhai trigolion bryderon y gallai argaeledd alcohol ar y safle o 10:00 tan 22:00 gynyddu’r posibilrwydd y gallai plant gael gafael ar alcohol.

3.7 Mynegodd un trigolyn ei fod wedi gweld cynnydd mewn traffig gyda’r nos a sŵn ar yr adegau oedd gan y Parc amseroedd agor hwyrach.

**3.8 Sylwadau Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd**

3.9 Er nad oedd y Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd yn gwrthwynebu’r cais yn gyffredinol, roedd fodd bynnag, yn gwrthwynebu gweithgareddau megis cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio yn cael ei ganiatáu yn yr awyr agored tan 22:00. Nododd y swyddog nad oedd rhan M o'r cais, a fyddai'n ffurfio atodlen weithredol y drwydded, yn cyfarch mesurau lliniaru sŵn o adloniant a reoleiddir yn yr awyr agored. O ganlyniad i hynny, nid oedd digon o wybodaeth yn y cais i ddangos na fyddai’r amcan niwsans cyhoeddus yn cael ei danseilio.

3.10 Nodwyd bod rhai o’r eiddo cyfagos yn agos iawn i’r lleoliad ble y gellid cynnal adloniant a reoleiddir yn yr awyr agored. Nodwyd y gellir cynnal digwyddiadau achlysurol iawn gyda'r nos dan Rybudd Digwyddiad Dros Dro, ac y byddai hyn yn rhoi cyfle i’r awdurdodau cyfrifol drafod problemau posib ymlaen llaw ac i asesu a oes modd rheoli sŵn o ddigwyddiadau awyr agored yn ddigonol.

3:11 Mewn ymateb, nododd Andrew Baker, ar ran yr ymgeisydd, Continuum Attractions, nad oedd y cwmni erioed wedi bwriadu cynnal digwyddiadau awyr agored gyda'r nos cyson megis cyngherddau gyda cherddoriaeth fyw, ond yn hytrach cerddoriaeth acwstig, a sinemâu awyr agored a dramâu o bryd i'w gilydd. Cydnabyddodd Mr Baker y byddai'r drwydded eiddo, os y caniateir fel y gofynnir amdani, yn caniatáu i'r gweithgareddau penodol hynny gael eu cynnal 7 niwrnod yr wythnos, tan 22:00.

3:12 Yn sgil pryderon o'r fath, cytunodd Mr Baker felly y byddai cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, dramâu a ffilmiau yn yr awyr agored yn gorffen am 18:00, yr un amser a phryd mae'r

Parc yn cau. Derbyniodd Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd y cyfaddawd hwn, a thynnu'r gwrthwynebiad yn ôl.

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir i'r Pwyllgor **gymeradwyo'r cais** - gan ystyried y sylwadau a wnaed; ac yn unol gyda'r cyfaddawd ar oriau o adloniant rheoledig a ganiateir a gytunwyd rhwng y Swyddog Gwarchod y Cyhoedd a’r ymgeisydd ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

| PWYLLGOR: | IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| DYDDIAD: | 27 Hydref 2023 |
| TEITL: | CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CLWB LLYN BACH, PORTHMADOG |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH AMGYLCHEDD |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

2. Atodir cais i amrywio trwydded eiddo ar gyfer Clwb Llyn bach, Heol Yr Wyddfa, Porthmadog, LL49 9DF, gan Mr John Lewis Roberts. Clwb ar gyfer aelodau yw hwn yn bennaf sydd yn cynnwys bar ac ardal patio / gardd gwrw; gyda Trwydded eiddo yn hytrach na tystysgrif clwb.

2.1 Mae'r ymgeisydd yn ceisio caniatâd i amrywio'r drwydded i ychwanegu gwerthu alcohol o adeilad bach tu allan yn y cefn ac i ddefnyddio'r ardal tu allan ar gyfer gweithgareddau trwyddedig pan gynhelir digwyddiadau ac ar adegau prysur.

2.2 Gofynnir am gael cynnal cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio hyd at 01:00 bob dydd yn ogystal a perfformiadau dawns, ac unrhyw weithgaredd tebyg megis comediwyr 'standup' . Gofynnir am yr hawl i gynnal y gweithgareddau trwyddedig yma tu mewn a thu allan, 7 diwrnod yr wythnos, ond fod adloniant rheoledig gan gynnwys cerddoriaeth a dawnsio yn dod i ben tu allan am 23:00. Er nad oes cynnydd yn yr oriau gweithgareddau trwyddedig o'i gymharu a'r drwydded cyfredol, mae'r ymgeisydd yn ceisio yr hawl i gynnal gweithgareddau trwyddedig y tu allan i'r eiddo hyd at 23:00. Bwriedir caniatáu gwerthiant alcohol o'r 'hatch' yn y bar allanol tan 23:30, ac bwriedir cau yr ardd gwrw am 12:00; gan ofyn i cwsmeriaid symud i mewn i'r adeilad.

2.3 Mae'r ymgeisydd yn gofyn am ganiatâd i gomedïwr berfformio tu mewn yn ogystal a thu allan tan 01:00 , er fod yr ymgeisydd yn nodi yn rhan M y cais fod y llecyn allanol yn cael ei gau am 00:00.

2.4 Defnyddir y clwb gan aelodau yn bennaf, ond fe weithredir o dan Drwydded eiddo yn hytrach na thrwydded Clwb, felly fe groesawir cwsmeriaid nad ydynt yn aelodau hefyd pan gynhelir digwyddiadau yn achlysurol.

2.5 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

2.6 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| **Trwydded Eiddo Presenol/Current Premises Licence** | **Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence** |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours** | |
| Dydd Sul/Sunday 09:00 - 02:30<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 02:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 02:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 02:30 | Dydd Sul/Sunday 09:00 - 02:30<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 02:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 02:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 02:30 |

| | |
|---|---|
| Dydd Iau/Thursday 09:00 – 02:30<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 02:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 02:30 | Dydd Iau/Thursday 09:00 – 02:30<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 02:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 02:30 |

| **Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activites** | |
|---|---|
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 02:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 02:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 02:00 | **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 02:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 02:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 02:00<br><br>**Mi fydd y bar tu allan yn cau am 23:00** |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Tu Fewn :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 01:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 01:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 01:00 | **Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 01:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 01:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 01:00<br><br>**Cerddoriaeth tu allan i orffen dim hwyrach na 23:00 pan mae digwyddiadau ymlaen** |
| **Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Tu Fewn :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 01:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 01:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 01:00 | **Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 01:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 01:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 01:00<br><br>**Cerddoriaeth tu allan i orffen dim hwyrach na 23:00 pan mae digwyddiadau ymlaen** |
| **Perfformiadau Dawns/Performance of Dance: Tu Fewn :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 01:00 | **Perfformiadau Dawns/Performance of Dance: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors** |

| | |
|---|---|
| Dydd Llun/Monday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 01:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 01:00 | Dydd Sul/Sunday 09:00 - 01:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 01:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 01:00<br>**Fydd dawnsio yn dod i ben dim hwyrach na 23:00 pan fydd digwyddiadau ymlaen** |
| **Unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg i'r hyn sy'n dod oddi fewn (e), (F) neu (G)** | **Unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg i'r hyn sy'n dod oddi fewn (e), (F) neu (G) :: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 01:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 – 01:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 – 01:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 – 01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 – 01:00<br><br>**Digrifwyr / gomediwyr** |

## 3. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant staff ar deddfwriaeth trwyddedig
- Dim goddefgarwch cyffuriau
- Gwydrau plastig yn unig i'w defnyddio y tu allan
- Mesurau i atal trosedd ac anrhefn, sicrhau diogelwch y cyhoedd a diogelwch plant ac oedolion bregus
- Cydweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill
- Cynnal prosesau gwirio oedran a sicrhau hyfforddiant cynhwysfawr i staff ar brosesau gwirio oedran
- Ni fydd plant o dan 16 yn cael aros ar yr eiddo ar ôl 19:00 yn ystod y penwythnos
- Cynnal polisi Her 25

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

## 4. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan | Dim gwrthwynebiad |

| | |
|---|---|
| Tim Bwyd, Gwarchod y Cyhoedd | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | E-bost – gwrthwynebiad |
| Clerc Cyngor Tref Porthmadog | Dim gwrthwynebiad cyn belled a bod y gweithgareddau yn cael eu cyfyngu i du mewn i'r adeilad ac nid y tu allan |

**3 Sylwadau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**

3.1 Cyflwynwyd sylwadau ar sail pryderon y byddai'r amcan trwyddedu o Atal Niwsans Cyhoeddus yn cael ei danseilio oherwydd y bwriad i gynnal gweithgareddau trwyddedig tu allan i'r eiddo , gyda adloniant rheoledig yn cael ei ganiatáu yn yr awyr agored tan 23:00, a bar allanol tan 23:30.

3.2 Nodir fod yr ymgeisydd yn datgan yn rhan M y cais fod dod a adloniant rheoledig i ben am 23:00 a cau yr ardd gwrw am 00:00 yn fodd o atal niwsans cyhoeddus; ond nid oes unrhyw fanylion o'r camau arfaethedig y bwriedir eu cymryd i liniaru effaith sŵn ar drigolion cyfagos yn ystod digwyddiadau lle cynhelir adloniant.

3.3 Nodir fod y disgwyliad fod deilydd unrhyw drwydded yn cydymffurfio gyda'r amcanion trwyddedu, gan gynnwys atal niwsans cyhoeddus . Mae disgwyliad fod ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth fanwl gyda cais i ganiatáu Awdurdod Trwyddedu benderfynu os yw y mesurau a gynigir yn ddigonol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn yr ardal leol.

3.4 Nodir fod yr eiddo yma yn sensitif iawn i sŵn, wedi ei amgylchynu fel y mai gyda amryw o eiddo preswyl. Cadarnheir hefyd fod cwyn sŵn wedi ei dderbyn yn ddiweddar gan breswylydd cyfagos ynglŷn a cherddoriaeth uchel, cwsmeriaid yn gweiddi a bod yn swnllyd wrth adael; ac fod poteli gwydr yn cael eu gwagio yn hwyr yn y nos.

3.5 Fe dynnir sylw at y ffaith fod y cais yn ddryslyd oherwydd fod cyfeiriad at gomediwyr yn cael perfformio tu allan tan 01:00 y bore , er fod rhan M y cais yn nodi fod yr ardd gwrw yn cael ei chau am 00:00

3.6 Codir cwestiwn ynglŷn a statws cynllunio y bwriad arfaethedig o ran newid y storfa allanol yn far bychan gyda 'hatch' gweini.

3.7 Daw y swyddog i'r casgliad y byddai caniatáu adloniant rheoledig tan 23:00 a bar tan 23:30 tu allan yn debygol iawn o danseilio'r amcan trwydded o atal niwsans cyhoeddus.

3.8 Ymhellach awgrymir y byddai yn well i'r ymgeisydd geisio hawl i gynnal digwyddiadau sydd yn gwneud defnydd o'r ardal allanol drwy gyflwyno Rhybuddion Digwyddiad Dros dro; fyddai yn rhoi cyfle i brofi os yw yn bosib rheoli niwsans sŵn yn ystod digwyddiadau o'r fath.

3.9 Nodir felly fod y cais yn cael ei wrthwynebu yn ei gyfanrwydd am y rhesymau a nodwyd.

**4 Sylwadau Cyngor Tref Porthmadog**

4.1 Mae Clerc y Cyngor Tref yn nodi yn ei sylwadau nad yw y Cyngor yn gwrthwynebu y cais cyn belled y cynhelir yr oll o'r gweithgareddau trwyddedig tu mewn . Barn yr Awdurdod Trwyddedu yw y dylid ystyried sylwadau y Cyngor Tref fel gwrthwynebiad, gan mai'r unig wahaniaeth rhwng y r hyn a ofynnir amdano yn y cais arfaethedig a'r drwydded gyfredol yw y bwriad i gynnal gweithgareddau trwyddedig tu allan.

**5. ARGYMHELLIAD**

**5.1 Yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, ac o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd; argymhellir fod y Pwyllgor yn GWRTHOD y cais am y rhesymau canlynol -**

- **Nid oes unrhyw fesurau wedi eu hargymell yn rhan M sydd yn argyhoeddi'r Awdurdod Trwyddedu na'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd fod posib rhoi mesurau mewn lle i reoli ardrawiad sŵn yn y lleoliad hwn sydd wedi ei amgylchynu gyda eiddo preswyl.**
- **Mae cwyn wedi ei dderbyn am sŵn miwsig a sŵn cwsmeriaid ar yr eiddo trwyddedig yn ddiweddar**
- **Er fod swyddog Gwarchod y Cyhoedd wedi hysbysu'r ymgeisydd o'r bwriad i wrthwynebu'r cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus; ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan yr ymgeisydd , neu unrhyw awgrym o gyfaddawd .**
- **Fe fyddai yn fwy priodol i'r ymgeisydd fod yn cyflwyno rhybuddion digwyddiadau dros dro er mwyn ceisio darganfod os oes modd rheoli sŵn o ddefnydd yr ardd gwrw ar gyfer gweithgareddau trwyddedig.**